PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Polisi'r Gwasanaeth Llyfrgell ar Gyfraniadau ac Rhoddion

Perchennog y polisi:	*Rheolwr Casgliadau a Datblygu Digidol*
Corff cymeradwyo:	*Grŵp Tasg y Llyfrgell ac Archifau*
Dyddiad cymeradwyo Fersiwn 1:	*22/03/2018 [cyfnod 279]*
Dyddiad y daw i rym:	*22/03/2018*
Dyddiad yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb:	*12/03/2018*
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	*Mawrth 2019*

1. Rhagymadrodd

Mae casgliadau'r Gwasanaeth Llyfrgell wedi cael eu cyfoethogi a'u cryfhau dros y blynyddoedd gan haelioni cyfranwyr.

Rydym yn falch o ystyried rhoddion o ddeunydd sy'n cyfoethogi'r gweithgareddau ysgolheigaidd ac enw da academaidd y brifysgol. Fodd bynnag, gobeithiwn y bydd darpar gyfranwyr yn deall ein hangen i reoli'n ofalus gyfyngiadau ymarferol fel lle, adnoddau staff a chyllidebau. Fel rheol, ni fyddwn yn derbyn deunydd na chaiff ei ychwanegu at ein casgliadau.

Bwriedir i'r canlynol fod yn ganllawiau cyffredinol yn unig. Ni ddylid eu hystyried fel rhai terfynol a haearnaidd ac ystyrir pob rhodd yn ôl ei rhagoriaethau ei hun dan arweiniad ein Polisi Casgliadau:
https://www.bangor.ac.uk/library/policy_documents.php.cy

2. Canllawiau Cyffredinol

At ei gilydd dyma yw'r meini prawf ar gyfer derbyn deunydd:

- Mae'r deunydd yn berthnasol i addysgu neu ymchwil gyfredol yn y brifysgol.
- Mae'r deunydd yn cryfhau casgliadau presennol.
- Nid yw'r deunydd yn gopïau deublyg o stoc bresennol.
- Rhaid i'r deunydd fod mewn cyflwr da. Er enghraifft, ni ddylai deunydd ddangos arwyddion o damp neu lwydni, cloriau rhydd neu dudalennau rhydd, wedi'u niweidio neu ar goll.

3. Rhoddion Bach

Gellir cario rhoddion bach yn rhwydd, sef rhoddion nad ydynt yn fwy na phum cyfrol. Gellir eu gadael yn unrhyw un o ddesgiau Gwasanaethau Cwsmer y llyfrgell.

4. Rhoddion Mawr neu Ddrud

I gyfrannu rhoddion mawr (mwy na phum cyfrol) neu ddrud, gofynnir i chi gysylltu â ni ymlaen llaw (libsupport@bangor.ac.uk) gan roi rhestr lyfryddol lawn o'r eitemau (awdur, teitl, cyhoeddwr, blwyddyn ac argraffiad). Efallai na fydd yn bosibl derbyn y casgliad llawn ac o'i

dderbyn bydd yn cael ei wasgaru ledled y llyfrgell fel rheol, yn hytrach na'i gadw mewn casgliad penodol ar wahân.

5. Rhoddion o Eitemau Prin neu Werthfawr

Yn achos rhoddion o eitemau prin neu werthfawr, neu gasgliadau cyflawn, a fyddech cystal â chysylltu â Chasgliadau Arbennig (archives@bangor.ac.uk). Ceir Polisi a Thelerau ac Amodau Rhoi ar wahân i'r Archifau a Chasgliadau Arbennig: https://www.bangor.ac.uk/archives/about.php.en

6. Costau Ychwanegol

Ni all y llyfrgell dalu unrhyw gostau'n ymwneud â danfon rhoddion i'r brifysgol. Mae costau i brosesu a storio pob rhodd ac mae'n rhaid i'r llyfrgell dalu'r rhain o'i chyllideb. Os ydych yn fodlon rhoi cymorth ariannol ychwanegol at gost prosesu eich rhodd, gwerthfawrogir hynny'n fawr iawn.

7. Telerau ac Amodau

Derbynnir pob rhodd heb ymrwymiad i'r rhoddwyr ac ar y ddealltwriaeth fod y deunydd ar ôl ei dderbyn yn dod yn eiddo i Wasanaeth Llyfrgell ac Archifau Prifysgol Bangor.

Mae gan y llyfrgell awdurdod llawn dros y ffordd mae'n ymdrin â deunydd a roddir, yn cynnwys amserau prosesu, y penderfyniad terfynol i dderbyn neu wrthod eitemau, a threfniadau storio. Fel rheol ni allwn roi gwybod i roddwyr beth yw'r sefyllfa gyda'u rhoddion neu ymateb i geisiadau i gyflymu'r gwaith o brosesu rhoddion unigol.

Os na dderbynnir eitem i'n casgliadau, ceir gwared arni mewn ffordd gyfrifol yn amgylcheddol.

Rydym yn adolygu ein holl gasgliadau'n rheolaidd ac yn cadw'r hawl i gael gwared ar unrhyw eitem fel y nodir yn y Polisi Casgliadau: https://www.bangor.ac.uk/library/policy_documents.php.cy

Mae hawl gennym hefyd i gael gwared ar unrhyw rodd a gedwir yn ein man storio allanol os na ofynnwyd am ei defnyddio ers dwy flynedd.

8. Ffurflen Dderbyn I Roddwyr

Gofynnir i roddwyr lofnodi ffurflen derbyn rhodd yn cytuno â Pholisi'r Gwasanaeth Llyfrgell ar Gyfraniadau ac Rhoddion (Atodiad 1).

9. Manylion Cyswllt

Os oes arnoch angen rhagor o gyngor am y polisi hwn, cysylltwch â'r canlynol:

Rheolwr Casgliadau a Datblygu Digidol
Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau
Ffordd y Coleg
Bangor

Gwynedd
LL57 2DG

Ffôn: 01248 388381
E-bost: llyfrgell@bangor.ac.uk

10. Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu pob blwyddyn mewn ymgynghoriad â budd-ddeiliaid, neu'n gynharach os bydd newid mewn amgylchiadau a all ei gwneud hi'n ofynnol i gael adolygiad.

11. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i ymgorffori ei Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn ei pholisïau, trefniadau ac arferion. Gwnaed asesiad effaith cydraddoldeb ar y polisi hwn yn unol â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb.

Atodiad 1

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Ffurflen Dderbyn ar Gyfraniadau ac Rhoddion

Rwy'n cytuno â thelerau'r Gwasanaeth Llyfrgell ar roddion:
https://www.bangor.ac.uk/library/policy_documents.php.cy

Enw:	
Cyfeiriad:	
Llofnod:	
Dyddiad Derbyn:	